| | |
|---|---|
| **Adroddiad At:** | **Y Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Gorffennaf 2012** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Barbara Smith – Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Penodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |

---

**1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenodi aelod lleyg i eistedd ar Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor sef Pwyllgor Archwilio'r Cyngor at ddibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur).

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Mae'r Mesur yn gofyn i'r Cyngor gael Pwyllgor Archwilio ac i benodi o leiaf un aelod lleyg i'r Pwyllgor hwnnw. Ni all y Pwyllgor ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau hyd oni y mae ei aelodaeth yn gyflawn.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cyngor yn penodi fel aelod lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yr unigolyn y mae'r panel cyfweld yn ei argymell.

3.2 Bod yr aelod lleyg yn cael ei benodi ar gyfer cyfnod yn y swydd a ddaw i ben ar ddyddiad yr Etholiad Llywodraeth Leol nesaf yn 2017.

**4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Mae'r Mesur yn gofyn i'r Cyngor benodi Pwyllgor Archwilio. Rhaid i'w aelodaeth gynnwys o leiaf un aelod lleyg. Ni ddylai mwy na thraean o aelodau'r Pwyllgor fod yn aelodau lleyg.

4.2 Ar 15 Mai 2012 cytunodd y Cyngor i ddynodi'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel Pwyllgor Archwilio'r Cyngor. Cytunodd y Cyngor ymhellach y dylai un aelod o'r Pwyllgor fod yn aelod lleyg.

4.3 Ar 22 Mai 2012 penododd y Cyngor chwe aelod etholedig i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a dirprwywyd i'r aelodau hynny'r rôl o gyfweld ymgeiswyr ar gyfer swydd aelod lleyg ac argymell wrth y Cyngor yr unigolyn i'w benodi.

4.4 Hysbysebodd y cyngor swydd aelod lleyg yn y wasg leol trwy hysbyseb ar y cyd gyda dau awdurdod arall yng Ngogledd Cymru.

4.5 Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Cyngor wedi derbyn ceisiadau gan dri ymgeisydd, y bydd pob un ohonynt yn cael eu cyfweld ar 2 Gorffennaf 2012.

4.6 Nid yw ymgeiswyr yn gymwys i'w hystyried os ydynt yn Swyddogion neu'n Gynghorwyr unrhyw awdurdod perthnasol, ac ni allant fod yn briod neu'n bartner sifil i unigolyn o'r fath. Nid yw ymgeiswyr yn gymwys os ydyn nhw'n gyn Gynghorwyr neu Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych.

4.8 Bydd y panel cyfweld yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor ynglŷn â'r unigolyn i'w benodi.

**5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r penderfyniad yn gweithredu gofynion y Mesur ac yn cyfrannu at y flaenoriaeth o Gyngor sy'n perfformio'n uchel.

**6. Faint y bydd yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd hawl gan yr aelod lleyg o dan adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod) a £256 (£128 am hanner diwrnod) os yw'r aelod lleyg yn Gadeirydd ar y Pwyllgor. Mae'r taliadau ar gyfer amser y cyfarfod ac yn cynnwys amser a dreulir ar baratoi a theithio. Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at bedair awr ac mae diwrnod llawn dros bedair awr. Mae taliadau wedi'u cyfyngu i uchafswm o gyfwerth â deg diwrnod llawn y flwyddyn.

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

7.1 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori'n eang ar weithredu'r Mesur.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Mae'r rôl yn ofyniad o'r Mesur. Nid yw costau penodi aelod lleyg yn arwyddocaol a bydd yn cael ei gadw o fewn adnoddau cyfredol.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w gostwng?**

9.1 Mae'r gofyniad yn y Mesur i benodi aelod lleyg i'r Pwyllgor yn orfodol. Byddai methu penodi aelod lleyg yn golygu bod trafodion y Pwyllgor yn annilys.

**10. Y Pŵer i Wneud y Penderfyniad**

Adran 81 a 82 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.